# SL(5)590 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bobl sy'n dod i mewn i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 diwrnod. Mae'r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid yw ynysu yn ofynnol i bobl sy'n dod i mewn i Gymru ar ôl bod mewn un neu fwy o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi'u diwygio fel a ganlyn:

- Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Estonia, Latfia, Saint Vincent a'r Grenadines, Slofacia a Slofenia at restr Atodlen 3 o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.
- Mae Rheoliad 6 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i dynnu Lwcsembwrg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.
- Mae rheoliad 8 yn ychwanegu digwyddiadau a gemau pellach at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4, sy'n caniatáu eithriadau rhag gorfod ynysu i'r rhai sy'n cymryd rhan.
- Mae Rheoliad 9 yn gwneud diwygiad technegol i gywiro'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" yn Atodlen 2.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae hyn hefyd yn golygu bod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod basio rhwng y dyddiad gosod offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a gafwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 30 Gorffennaf 2020, sef:

*Bu'n rhaid tynnu Lwcsembwrg ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 yn dilyn cyngor sy'n dangos bod y perygl i iechyd y cyhoedd o deithio i mewn yn dod o Lwcsembwrg wedi codi. Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro, o ystyried bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronfeirws a'r angen am ymateb ar frys o ran iechyd y cyhoedd, nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o ran hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gyfiawn at y diben o atal lledaenu afiechydon heintus a/neu caniateir ymyrraeth ar y sail bod hyn yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'i fod yn gymesur.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Fe wnaeth adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol nodi fod y diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" yn dibynnu ar ddarpariaeth nad oedd mewn grym eto. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad i unioni'r sefyllfa honno.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Awst 2020**